**Edexcel GCE**

# Technoleg Cerddoriaeth

## Uwch
## Uned 3: Portffolio Technoleg Cerddoriaeth 2

Dyddiad rhyddhau: Dydd Mercher 1 Medi 2010
**Amser: 60 awr**

Cyfeirnod y Papur
**6MT03/01**

**Rhaid bod gennych:**
Copi o'r recordiad gwreiddiol ar gyfer Tasg 3A

### Cyfarwyddiadau i Athrawon

- Rhaid cyflwyno Tasg 3A fel Trac 1, Tasg 3B fel Trac 2, a Thasg 3C fel Trac 3 (neu Draciau 3–7 os dewisir Briff Cyfansoddi 1).
- Rhaid i ganolfannau gadw copïau wrth gefn o holl recordiadau ymgeiswyr ar gyfer Tasgau 3A, 3B a 3C a ffeiliau meddalwedd patent ar gyfer Tasg 3A.
- Rhaid cyflwyno'r portffolio cyflawn, yn cynnwys Tasgau 3A, 3B a 3C, i'w asesu ar ffurf recordiadau stereo ar UN CD SAIN, ynghyd â'r llyfr log a'r ddogfen ddatganiad gydag Adran A (Llyfr log) ac Adran B (Ffurflen ddatganiad), wedi'u cwblhau.
- Caiff canolfannau eu hatgoffa y dylai cyflwyniad pob ymgeisydd gael ei gyflwyno ar CD ar wahân (NID ar MiniDisc™ na chasét) a **rhaid** nodi rhif cyfeirnod y papur (6MT03), rhif y ganolfan, enw'r ymgeisydd a rhif yr ymgeisydd yn glir arno.
- **Rhaid** gwirio CDau cyn eu hanfon, a'u pecynnu fel na wneir difrod iddynt wrth eu hanfon.
- **Rhaid anfon y CD a'r Llyfr log ynghyd â'r Ffurflen ddatganiad wedi'i llofnodi at yr arholwr i gyrraedd erbyn 15 Mai 2011.**

### Cyfarwyddiadau i Ymgeiswyr

- Cwblhewch **bob un o'r TAIR** tasg.

### Gwybodaeth i Ymgeiswyr

- **120** yw cyfanswm y marciau ar gyfer yr uned hon.
- Tasg 3A: Perfformiad Integredig wedi'i Ddilyniannu (40 marc)
- Tasg 3B: Recordiad Aml-drac (40 marc)
- Tasg 3C: Cyfansoddi gan Ddefnyddio Technoleg Cerddoriaeth (40 marc)

*Trowch y dudalen* ▶

P39086A
©2010 Edexcel Limited.
1/
P 3 9 0 8 6 A

edexcel
advancing learning, changing lives

## Amodau dan oruchwyliaeth

**Mae gan Uned 3 dair tasg yn y Portffolio Technoleg Cerddoriaeth: 3A – Perfformiad Integredig wedi'i Ddilyniannu, 3B – Recordiad Aml-drac a 3C – Cyfansoddi gan Ddefnyddio Technoleg Cerddoriaeth. Hefyd, mae llyfr log y mae'n rhaid ei gyflwyno ar y cyd â'r portffolio.**

Nid yw'r gofyniad am 'Amodau dan oruchwyliaeth' yn golygu bod rhaid i'r cyflwyniad gael ei wneud, o'r dechrau i'r diwedd, o dan oruchwyliaeth gaeth yn adran technoleg cerddoriaeth yr ysgol neu'r coleg. Gall gael ei rannu'n fras yn ddwy broses, '**ymchwil a pharatoi**' ac '**ysgrifennu**', gyda dim ond yr amser sy'n cael ei dreulio ar ran ysgrifennu'r broses yn cyfrif tuag at yr uchafswm o 60 awr a nodir yn y fanyleb.

### Ymchwil a pharatoi

Yn fras, dyma unrhyw waith sy'n cael ei wneud cyn cwblhau'r arteffact terfynol sydd i'w anfon at yr arholwr.

*Gall* yr ymchwil a'r paratoi *gael ei wneud y tu allan i'r ganolfan*. Nid oes cyfyngiad amser arno. Gall y canlyniadau gael eu recordio'n ysgrifenedig neu'n electronig, a gellir mynd â'r rhain i mewn ac allan o'r ganolfan a gellir cyfeirio atynt yn ystod yr amser ysgrifennu dan oruchwyliaeth. Fodd bynnag, *rhaid* i'r athro/athrawes eu harchwilio, a bod yn fodlon mai gwaith y myfyriwr ei hun ydynt.

### Tasg 3A: Perfformiad Integredig wedi'i Ddilyniannu

Bydd ymchwil a pharatoi yn cynnwys amser sydd wedi'i dreulio yn gweithio allan y rhannau o'r trac sain gwreiddiol; datblygu sgiliau cynhyrchu cerddoriaeth gan ddefnyddio'r pecyn dilyniannu/Gweithfan Sain Digidol; arbrofi ag ansoddau (*timbres*), technegau recordio, effeithiau a phrosesu; ymchwilio i'r trac gwreiddiol; ymarfer y rhannau sydd i'w chwarae i mewn i'r dilyniannwr (*sequencer*) a rhoi ymarfer i'r perfformwyr byw.

### Tasg 3B: Recordiad Aml-drac

Bydd ymchwil a pharatoi yn cynnwys amser sydd wedi'i dreulio yn astudio'r trac sydd i'w recordio, paratoi ac ymarfer yr ensemble sydd i'w recordio, gwirio a phrofi offer, datblygu techneg microffonau a'u lleoli, profi lefelau a chael popeth wedi'i osod a'i baratoi ar gyfer y broses recordio go iawn, gwrando ar y gwreiddiol a phenderfynu pa effeithiau a phrosesu a ddefnyddiwyd, arbrofi â thechnegau cynhyrchu cerddoriaeth a chymysgu.

### Tasg 3C: Cyfansoddi gan Ddefnyddio Technoleg Cerddoriaeth

Bydd ymchwil a pharatoi yn cynnwys amser sydd wedi'i dreulio yn gwrando ar gerddoriaeth mewn arddulliau sy'n defnyddio technoleg; astudio'r briffiau a phenderfynu ar y dewis; cynllunio'r dull o gyflawni'r briff; ymarfer technegau synthesis, samplu, defnyddio effeithiau creadigol ac addasiadau (*manipulation*) eraill ar sain; ymchwilio'n llawn i'r holl bosibiliadau y mae eich meddalwedd a'ch ategion (*plug-ins*) yn eu cynnig; arbrofi â syniadau alawol, harmonig a rhythmig addas; gweithio gyda gwead (*texture*), offeryniaeth, a ffurf; gweithio allan ddrafftiau bras o'r cyfansoddiad.

**Ysgrifennu**

Yn fras, dyma unrhyw waith sy'n gysylltiedig â chwblhau'r arteffact terfynol sydd i'w anfon at yr arholwr.

Mae gan fyfyrwyr uchafswm o 60 awr o amser ysgrifennu. Rhaid i athrawon gadw cofnod ysgrifenedig i wneud yn siŵr *nad aethpwyd dros* amser ysgrifennu pob myfyriwr. Gall y 60 awr gael eu rhannu ar draws y 3 tasg fel y bo'n briodol – dylai'r 20 awr y dasg a nodir yn y fanyleb gael ei ddefnyddio fel canllaw, ond nid yw'n orfodol – ond ni ddylid mynd dros y **cyfanswm** o 60 awr ar gyfer y portffolio cyfan.

Bydd amser ysgrifennu'n digwydd yn y ganolfan, naill ai yn ystod amser gwersi yn yr amserlen neu y tu allan iddynt, beth bynnag sy'n fwyaf cyfleus i bawb. Mae'n rhaid iddo fod o dan oruchwyliaeth.

**Tasg 3A: Perfformiad Integredig wedi'i Ddilyniannu**

Mae unrhyw beth a fydd yn ffurfio rhan o'r recordiad terfynol a anfonir at yr arholwr yn cael ei ystyried yn rhan o waith 'ysgrifennu' y dasg. Mae hyn yn cynnwys: mewnbynnu nodau i'r pecyn dilyniannu neu olygu unrhyw ddata yn dilyn hynny, gan gynnwys golygu ansoddau, traw, rhythm, gwybodaeth rheolydd; recordio'r lleisiau byw a'r rhannau eraill; gwaith ar effeithiau, EQ, prosesu dynameg ac agweddau eraill ar y cymysgedd terfynol. Mae sboncio (cymysgu i lawr) terfynol y dilyniant gorffenedig i ffeil sain stereo hefyd yn cael ei ystyried yn amser 'ysgrifennu', er nad yw paratoi a llosgi'r CD ar gyfer ei gyflwyno yn cael ei ystyried yn rhan o hyn.

**Tasg 3B: Recordiad Aml-drac**

Daw unrhyw beth a fydd yn ffurfio rhan o'r trac sain gorffenedig sydd i'w anfon at yr arholwr o fewn yr amser 'ysgrifennu'. Bydd hyn yn cynnwys recordio'r cerddorion, unrhyw olygu yn dilyn hynny gan gynnwys trimio traciau, gosod lefelau, ychwanegu effeithiau a phrosesu, cymysgu a chreu meistr. Mae sboncio (cymysgu i lawr) terfynol y recordiad gorffenedig i ffeil sain stereo hefyd yn cael ei ystyried yn amser 'ysgrifennu', er nad yw paratoi a llosgi'r CD ar gyfer ei gyflwyno yn cael ei ystyried yn rhan o hyn.

**Tasg 3C: Cyfansoddi gan Ddefnyddio Technoleg Cerddoriaeth**

Daw unrhyw beth sy'n cael ei fewnbynnu i'r trac terfynol sydd i'w anfon at yr arholwr o fewn yr amser 'ysgrifennu'. Bydd hyn yn cynnwys amser sy'n cael ei dreulio'n mewnbynnu'r holl syniadau a gafodd yr ymgeisydd yn ystod yr amser paratoi ac unrhyw addasiadau, golygu ac ychwanegiadau a wneir wedi hynny i'r cyfansoddiad terfynol. Bydd hyn hefyd yn cynnwys synthesis, golygu ansoddau a lleisiau, addasu seiniau, gwaith samplu a defnyddio a phrosesu effeithiau. Mae sboncio (cymysgu i lawr) terfynol y cyfansoddiad gorffenedig i ffeil sain stereo hefyd yn cael ei ystyried yn amser 'ysgrifennu', er nad yw paratoi a llosgi'r CD ar gyfer ei gyflwyno yn cael ei ystyried yn rhan o hyn.

**Llyfr log**

Nid yw cwblhau'r llyfr log yn cyfrannu at y cyfyngiad 60 awr, ond mae'n rhaid ei gwblhau o dan oruchwyliaeth gyfyngedig.

**Ffurflen Ddatganiad**

Rhaid i ymgeiswyr lofnodi'r ffurflen ddatganiad ar dudalen 16 y Llyfr log gan ddatgan mai eu gwaith eu hunain yw'r gwaith. Ni fydd athrawon yn cydlofnodi'r datganiad os nad yw'r gwaith yn ymddangos yn waith gwreiddiol.

**Tasg 3A: Perfformiad Integredig wedi'i Ddilyniannu**

**Ysgogiadau**

- **Knock On Wood (Seal)** o'r albwm *Soul* (WEA/Warner Bros) EAN 0093624982463
- **The Power of Goodbye (Madonna)** o'r albwm *Ray of Light* (WEA/Warner Bros) EAN 0093624684725

Mae gofyn i chi gynhyrchu sylweddiad (*realisation*) integredig wedi'i ddilyniannu gan ddefnyddio **un** o'r recordiadau sydd wedi'u rhestru uchod yn ysgogiad i chi.

Mae gofyn i chi ail-greu sylweddiad dilys cyflawn o'r ysgogiad rydych chi wedi'i ddewis, gan gynnwys yr holl linellau llais, rhannau offerynnol a nodweddion cynhyrchu.

Tasg glywedol (*aural*) yw hon yn bennaf, ac nid oes sgôr wedi cael ei chynnwys. Cewch weithio o sgôr os ydych yn dymuno hynny, ond byddwch yn ymwybodol fod sgorau caneuon Roc a Phop yn aml yn anghyflawn neu'n anghywir.

- Dylech geisio cydweddu (*match*) ansoddau (*timbres*) a manylion perfformiad mor agos ag sy'n bosibl â'r ysgogiad.
- **Rhaid** i chi recordio perfformiad byw o'r **prif ran leisiol** ac integreiddio hon yn y cymysgedd terfynol. Gall y rhan leisiol wreiddiol gael ei thrawsnodi ar gyfer llais dyn neu fenyw.
- Gallwch recordio **hyd at dri** thrac sain byw (gan gynnwys y prif leisiau). Gall y lleisiau cefndir gael eu recordio'n fyw neu eu dilyniannu gan ddefnyddio technegau ac ansoddau priodol.
- Ni chewch ddefnyddio unrhyw ddolenni sain neu MIDI a raglennwyd ymlaen llaw yn y dasg hon.
- Cewch ddefnyddio *arpeggiator* yn y dasg hon os yw hynny'n briodol.
- Ni ddylech samplu sain o unrhyw fersiwn masnachol o'r ysgogiad.

**Dylech gyflwyno'ch perfformiad gorffenedig fel Trac 1 ar eich CD Portffolio Technoleg Cerddoriaeth 2**

**(Cyfanswm ar gyfer Tasg 3A = 40 marc)**

---

**Tasg 3B: Recordiad Aml-drac**

Gwnewch recordiad o ddarn o gerddoriaeth o'ch dewis chi mewn arddull sy'n gysylltiedig â Maes Astudio 3: Datblygiad Cerddoriaeth yn seiliedig ar Dechnoleg.

Mae'n rhaid i chi recordio darn o gerddoriaeth sydd wedi'i ryddhau'n gyffredinol, neu ddarn safonol cydnabyddedig o roc, pop neu jazz. **Ni** chaiff hwn fod yn gyfansoddiad gwreiddiol gan y myfyriwr.

Mae'n rhaid i'ch recordiad gynnwys pedwar offeryn acwstig a/neu gerddorfaol (Pwnc A) **neu** bedwar offeryn taro (Pwnc B).

Gall deunydd ysgogi gael ei drefnu i fodloni gofynion y fanyleb ac mewn ffordd addas i'r adnoddau sydd ar gael ond ni fydd y trefniant yn cael ei asesu. Mae'n rhaid i'r adnoddau sy'n cael eu dewis fod yn ddigonol i greu trefniant dichonadwy ac adnabyddus.

Dylai eich recordiad:

- bara rhwng 3 a 5 munud
- defnyddio o leiaf 12 trac
- bod ag o leiaf wyth trac sy'n cael eu codi gan ddefnyddio microffonau
- defnyddio daliad DI lle bo'n briodol
- gwneud defnydd o dechnegau tros-seinio (*overdub*)
- defnyddio cerddorion byw yn unig, ac ni ddylai gynnwys unrhyw berfformiadau na samplau wedi'u dilyniannu gan MIDI
- bod yn gynhyrchiad stereo'n rhydd rhag sŵn, gan ddefnyddio effeithiau a phrosesu priodol.

**Dylech gyflwyno'ch recordiad gorffenedig fel Trac 2 ar eich CD Portffolio Technoleg Cerddoriaeth 2**

**(Cyfanswm ar gyfer Tasg 3B = 40 marc)**

**Tasg 3C: Cyfansoddi gan Ddefnyddio Technoleg Cerddoriaeth**

**Dewiswch UN o'r briffiau canlynol, a chyfansoddwch ddarn gwreiddiol yn unol â'r cyfarwyddiadau.**

Mae'n rhaid i dechnoleg cerddoriaeth fod yn ganolog i'r darn rydych chi'n ei gyfansoddi. Cewch ddefnyddio amrywiaeth o adnoddau gan gynnwys offerynnau wedi'u mwyhau, offerynnau electronig a rhith-offerynnau, samplau, MIDI, offerynnau acwstig a cherddorfaol, a lleisiau.

Defnyddiwch ystod o dechnegau rhaglennu i reoli, addasu (*manipulate*) a golygu'r seiniau rydych chi'n eu dewis.

Crëwch recordiad stereo o ansawdd uchel o'ch cyfansoddiad, sy'n talu sylw i bob agwedd ar gynhyrchu – daliad, cydbwysedd, asio (*blend*), EQ, dynameg, maes stereo ac FX.

**BRIFF CYFANSODDI 1**

**LiFone**

Rydych chi wedi cael eich comisiynu i ysgrifennu'r gerddoriaeth ar gyfer cwmni ffonau symudol newydd sy'n lansio cynnyrch blaengar (*cutting edge*) am y tro cyntaf yn y Deyrnas Unedig. Mae'r ffôn yn llawn dop o nodweddion (*features*) ac mae modd ei addasu fel ei fod yn addas i anghenion y defnyddiwr – dyma un o'r prif bwyntiau gwerthu.

Mae'r cwmni'n datblygu cyfres o hysbysebion sy'n targedu defnyddwyr gwahanol, bob un ohonynt wedi'u cynllunio i hyrwyddo'r nodweddion sy'n apelio at y darpar gwsmeriaid hynny.

Eich briff yw ysgrifennu'r gerddoriaeth ar gyfer pob un o'r hysbysebion hynny, gan adlewyrchu'r nodweddion slic ar sgrin gyffwrdd y ffôn, a'r graffigwaith praff (*bold*), llawn steil.

Mae gofyn i chi hefyd ysgrifennu logo cerddorol a fydd yn chwarae pan gaiff y ffôn ei droi ymlaen neu i ffwrdd, ac y bydd rhyw ffurf arno'n cael ei chynnwys ym mhob hysbyseb.

Bydd angen i'r gerddoriaeth rydych chi'n ei chreu ddangos amrywiaeth er mwyn adlewyrchu cynnwys pob hysbyseb.

---

**Cyfansoddwch BUM trac AR WAHÂN fel yr amlinellir isod:**

| Adran | Hyd (mewn eiliadau) | Delweddau |
|---|---|---|
| 1 | 3 ar y mwyaf* | **Logo Cerddorol** Rhaid i hwn fod yn gofiadwy, yn afaelgar, rhaid iddo adlewyrchu natur uwchdechnoleg y ffôn ac ni ddylai bara mwy na 3 eiliad. |
| **** SYLWER:** er mwyn llosgi'r logo cerddorol byr o adran 1 i CD, mae'n bosibl y bydd angen gwneud y trac ychydig yn hirach fel ei fod yn ateb yr amser gofynnol am drac CD. Os dyma'r achos, dylech ychwanegu tawelwch at DDIWEDD eich recordiad 3 eiliad.* | | |
| 2 | 45 | Mae'r delweddau'n dilyn dyn ifanc yn ei arddegau hwyr, yn torri i luniau agos ohono'n defnyddio'i LiFone:<br>• Mae'n gwrando ac yn lawrlwytho cerddoriaeth gartref<br>• Mae'n chwarae gemau rhyngweithiol ar-lein<br>• Mae'n astudio yn y coleg gan ddefnyddio'r dyddiadur, porwr y we ac e-Lyfrau<br>• Mae'n tecstio ffrindiau ac yn mynd i'r gêm, ac yn dilyn sgorau eraill yn fyw drwy'r gwasanaeth rhyngrwyd dros y ffôn<br>• Mae'n mynd allan ar ôl y gêm, yn tynnu lluniau ac yn eu gosod nhw ar-lein<br>• Mae'r olygfa olaf yn ei ddangos e'n mynd i'r gwely, wedi blino ond yn hapus, gyda'i LiFone ar y bwrdd<br>• Ar ddiwedd yr hysbyseb, mae'r slogan 'Eich Bywyd, Eich Ffôn' yn cael ei arddangos ar y sgrin |

| | | |
|---|---|---|
| **3** | **45** | Mae'r hysbyseb nesaf yn dangos grŵp o ferched ieuengach yn eu harddegau yn defnyddio'u LiFones:<br><br>• Maen nhw'n defnyddio sgwrsio byw mewn grŵp i siarad â ffrindiau eraill<br>• Maen nhw'n cymharu ac yn cyfnewid gorchuddion ffôn o'r amrywiaeth eang o fathau<br>• Maen nhw'n edrych ar y bargeinion siopa diweddaraf ac yn prynu nwyddau ar-lein.<br>• Maen nhw'n gwneud fideos o'i gilydd yn y llawr sglefrio; yn cwympo, yn chwerthin ac yn sgwrsio<br>• Maen nhw'n dewis ffilm i'w gwylio gan ddefnyddio'r nodwedd adolygiadau ffilmiau ac archebu tocynnau, yna'n codi llaw y tu allan i'r sinema wrth i un ohonyn nhw dynnu llun, yn hapus ac yn gwenu<br>• Ar ddiwedd yr hysbyseb, mae'r slogan 'Eich Bywyd, Eich Ffôn' yn cael ei arddangos ar y sgrin |
| **4** | **45** | Mae dyn mewn siwt drwsiadus yn cerdded i mewn i'w swyddfa ac yn tynnu allan ei LiFone:<br><br>• Mae'n defnyddio'r dyddiadur i edrych ar ei amserlen a'i gyfarfodydd<br>• Mae'n cytuno ar ddêl mewn sgwrs ffôn ac yn trefnu bod y taliad yn cael ei anfon ato ar unwaith gan ddefnyddio'r cyfleuster prosesu cerdyn credyd ar y LiFone<br>• Mae'n bwrw golwg dros y farchnad stoc a thros gyfrifon banc<br>• Mae'n derbyn neges i'w atgoffa am ben-blwydd ei briodas cyn hir; mae'n dewis blodau i'w hanfon at ei wraig<br>• Yn yr olygfa derfynol, mae ef a'i wraig yn gyrru i ffwrdd ar daith annisgwyl i ddathlu pen-blwydd eu priodas ac yn gwrando ar gerddoriaeth o'r LiFone<br>• Ar ddiwedd yr hysbyseb, mae'r slogan 'Eich Bywyd, Eich Ffôn' yn cael ei arddangos ar y sgrin |
| **5** | **45** | Mae cwpwl hŷn allan yn cerdded ar wyliau:<br><br>• Maen nhw'n cynllunio'u taith gan ddefnyddio'r swyddogaeth mapiau ar eu LiFone a chael gwybodaeth am dirnodau (*landmarks*) lleol<br>• Maen nhw'n bwrw golwg dros ragolygon y tywydd<br>• Maen nhw'n chwilio am adolygiadau o fwytai ac am gyfarwyddiadau<br>• Maen nhw'n cysylltu â'u teulu, gan gyfnewid ffotograffau o'u taith ac yn cael fideo o barti pen-blwydd eu hŵyr<br>• Maen nhw'n cerdded ar hyd y traeth gyda'r haul yn machlud yn brydferth gan oedi i recordio fideo o'r olygfa<br>• Ar ddiwedd yr hysbyseb, mae'r slogan 'Eich Bywyd, Eich Ffôn' yn cael ei arddangos ar y sgrin |

Rydych chi'n cael eich cynghori i wrando ar amrywiaeth o gerddoriaeth o hysbysebion teledu, ac i fod yn ymwybodol o bwysigrwydd themâu mewn cyd-destunau gwahanol.

**Rhaid i'r cyfansoddiad gynnwys o leiaf CHWE rhan offerynol/lleisiol ar wahân.**

**Dylech wneud defnydd creadigol o dechnoleg cerddoriaeth i ddatblygu eich cyfansoddiad, ac i gynhyrchu sylweddiad wedi'i recordio o ansawdd da o'ch cyfansoddiad.**

Cewch ddefnyddio unrhyw gyfuniad o MIDI (GM, heb fod yn GM, ac ansoddau gwreiddiol), samplau a/neu draciau sain/offerynnau/seiniau byw yn eich cyfansoddiad. Cewch ddefnyddio seiniau atmosfferig ac effeithiau electro-acwstig yn ogystal ag ansoddau offerynnol confensiynol. Mae creu sain wreiddiol (trwy ddefnyddio synthesis a samplu) yn cael ei annog.

Rhaid i'r pwyslais fod ar y gerddoriaeth, NID ar effeithiau sain. Hefyd, caiff ymgeiswyr eu hatgoffa mai tasg gyfansoddi yw hon, nid tasg ailgymysgu neu drefnu.

Dylai unrhyw samplau rydych chi wedi eu defnyddio gael credyd yn eich Llyfryn Cyflwyno, gyda manylion unrhyw brosesu a ffynhonnell y samplau (p'un ai bod y rhain yn dod o set fasnachol neu'n hunanrecordiad).

**Dylech gyflwyno'ch cyfansoddiad gorffenedig fel Traciau 3–7 ar eich CD Portffolio Technoleg Cerddoriaeth 2.**

**(40)**

**BRIFF CYFANSODDI 2**

***And 2Morrow***

Crëwch gyfansoddiad gan ddefnyddio'r gerdd *And 2Morrow* gan Tupac Shakur. Rydych chi'n cael eich cynghori i astudio'r testun a'i ystyr yn ofalus.

*And 2Morrow*

Today is filled with anger
fueled with hidden hate
scared of being outcast
afraid of common fate

Today is built on tragedies
which no one wants 2 face
nightmares 2 humanities
and morally disgraced

Tonight is filled with rage
violence in the air
children bred with ruthlessness
because no one at home cares

Tonight I lay my head down
but the pressure never stops
knawing at my sanity
content when I am dropped

But 2morrow I c change
a chance 2 build a new
Built on spirit intent of Heart
and ideals
based on truth

and tomorrow I wake with second wind
and strong because of pride
2 know I fought with all my heart 2 keep my
dream alive

*Tupac Shakur*

**Cyfansoddwch ddarn parhaus o gerddoriaeth sy’n para am DAIR MUNUD.**

Gall eich cyfansoddiad fod ar ffurf cân (sy’n gorfod cynnwys lleisiau wedi’u recordio), neu ddarn o gerddoriaeth gyfoes sy’n defnyddio samplau sain a grëwyd o ddetholiadau o’r testun wedi’u recordio.

**Rhaid i’r cyfansoddiad gynnwys o leiaf CHWE rhan offerynnol/lleisiol ar wahân.**

**Dylech wneud defnydd creadigol o dechnoleg cerddoriaeth i ddatblygu eich cyfansoddiad, ac i gynhyrchu sylweddiad wedi’i recordio o ansawdd da o’ch cyfansoddiad.**

Cewch ddefnyddio unrhyw gyfuniad o MIDI (GM, heb fod yn GM, ac ansoddau gwreiddiol), samplau a/neu draciau sain/offerynnau/seiniau byw yn eich cyfansoddiad. Cewch ddefnyddio seiniau atmosfferig ac effeithiau electro-acwstig yn ogystal ag ansoddau offerynnol confensiynol. Mae creu sain wreiddiol (trwy ddefnyddio synthesis a samplu) yn cael ei annog.

Rhaid i’r pwyslais fod ar y gerddoriaeth, NID ar effeithiau sain. Hefyd, caiff ymgeiswyr eu hatgoffa mai tasg gyfansoddi yw hon, nid tasg ailgymysgu neu drefnu.

Dylai unrhyw samplau rydych chi wedi eu defnyddio gael credyd yn eich Llyfryn Cyflwyno, gyda manylion unrhyw brosesu a ffynhonnell y samplau (p’un ai bod y rhain yn dod o set fasnachol neu’n hunanrecordiad).

**Dylech gyflwyno’ch cyfansoddiad gorffenedig fel Trac 3 ar eich CD Portffolio Technoleg Cerddoriaeth 2.**

**(40)**

**BRIFF CYFANSODDI 3**

**Economi'r Gwirionedd**

Mae angen i wleidyddion fod yn hyddysg (*well versed*) yng ngwaith yr economi. Mae'n ymddangos, fodd bynnag, eu bod nhw hefyd yn arbenigwyr ar fod yn ofalus (*economical*) o ran y gwirionedd. Yn ddiweddar, fe wnaeth sgandal treuliau Aelodau Seneddol (ASau) gyrraedd y penawdau, gydag anghytgord ynghylch y ffordd y mae cynrychiolwyr etholedig wedi dewis gwario arian trethdalwyr. Wrth gwrs, mae'r bobl cysylltiadau cyhoeddus (*PR*) yn ceisio rhoi naws gadarnhaol i'r storïau, ond heb amheuaeth, ni wnaeth hyn atal rhai ASau rhag cael eu dal allan.

Nid yw storïau sy'n bwrw amheuaeth ar integriti gwleidyddion yn ffenomenon newydd. Mae sgandalau'n gysylltiedig â charwriaethau, llygredd a chamddefnyddio pŵer wedi digwydd dros y degawdau – Profumo a Christine Keeler yn ystod y 60au, Nixon a Watergate yn ystod y 70au, Reagan a sgandal Contra Iran yn ystod yr 80au a Clinton a Monica Lewinsky yn ystod y 90au.

---

Crëwch gyfansoddiad sy'n defnyddio samplau sain o adroddiadau newyddion, areithiau neu ddatganiadau, sylwebaethau (*commentaries*) gwleidyddol neu ddychanol, a deunydd perthnasol eraill, e.e. bwletinau gwybodaeth gyhoeddus a thrafodaethau, neu ddetholiadau wedi'u darllen yn uchel o erthyglau papur newydd, a'u hymgorffori nhw'n greadigol mewn cyfansoddiad gwreiddiol sy'n adlewyrchu eich teimladau eich hun am y sgandalau sydd weithiau'n gysylltiedig â gwleidyddiaeth, naill ai ar hyn o bryd neu yn y gorffennol.

Gan ddefnyddio meddalwedd technoleg cerddoriaeth, ymgorfforwch o leiaf 6 sampl o eiriau a/neu ymadroddion yn eich cyfansoddiad. Rhaid i chi ddefnyddio nifer o nodweddion golygu i addasu eich samplau ac i greu seiniau a gweadau (*textures*) newydd.

**Cyfansoddwch ddarn parhaus o gerddoriaeth sy'n para am DAIR MUNUD.**

**Rhaid i'r cyfansoddiad gynnwys o leiaf CHWE thrac/rhan ar wahân.**

**Dylech wneud defnydd creadigol o dechnoleg cerddoriaeth i ddatblygu eich cyfansoddiad, ac i gynhyrchu sylweddiad wedi'i recordio o ansawdd da o'ch cyfansoddiad.**

Cewch ddefnyddio unrhyw gyfuniad o MIDI (GM, heb fod yn GM, ac ansoddau gwreiddiol), samplau a/neu draciau sain/offerynnau/seiniau byw yn eich cyfansoddiad. Cewch ddefnyddio seiniau atmosfferig ac effeithiau electro-acwstig yn ogystal ag ansoddau offerynnol confensiynol. Mae creu sain wreiddiol (trwy ddefnyddio synthesis a samplu) yn cael ei annog.

Rhaid i'r pwyslais fod ar y gerddoriaeth, NID ar effeithiau sain. Hefyd, caiff ymgeiswyr eu hatgoffa mai tasg gyfansoddi yw hon, nid tasg ailgymysgu neu drefnu.

Dylai unrhyw samplau rydych chi wedi eu defnyddio gael credyd yn eich Llyfryn Cyflwyno, gyda manylion unrhyw brosesu a ffynhonnell y samplau (p'un ai bod y rhain yn dod o set fasnachol neu'n hunanrecordiad).

**Dylech gyflwyno'ch cyfansoddiad gorffenedig fel Trac 3 ar eich CD Portffolio Technoleg Cerddoriaeth 2.**

**(40)**

**(Cyfanswm ar gyfer Tasg 3C = 40 marc)**

---

**CYFANSWM AR GYFER Y PAPUR = 120 MARC**